

Cyngor Cymuned LLANBRYNMAIR Community Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Nos Fercher, 6ed Mis Medi 2023

Presennol

Cynghorwyr - E Davies (Cadeirydd), D Jones, F Cauley, E Lewis, B Jones, P Jones a G Mitchell (Powys)

Ymddiheuriadau - I Edwards, S Evans, R Ashton, G Davies

Cynnigiodd y Cadeirydd, E Davies, croeso cynnes i pawb

Cyflwyniadau – Chris Priestly o Open Reach. Cyflwynwyd y datblygiadau lleol ynglyn a band eang ffeibr. Mae Chris yn ceisio hybu trigolion Llanbrynmair i ddatgan diddordeb mewn defnyddio gwasanaeth gwell trwy ffeibr er mwyn cyfiawnhau'r buddsoddiant i ddod. Trafodwyd y syniad o gael sesiynnau agored i Chris cael helpu pobol i llenwi'r ffurflenni ar-lein.

Datganiadau diddordeb –

Cytuno Cofnodion y cyfarfod blaenorol ar 5ed Gorffennaf 2023

E Davies yn cynnig, D Jones yn eilio. Pawb yn gytun

Materion yn codi

1. Parcio ceir ym mhentref Llan - Mae Ben Davies wedi cytuno i ddod a llwyth o 'planings' i lenwi ambell i bant ar y safle
2. Cais am llwybr seiclo o gwmpas y Cae Cymunedol - Mae G Mitchell a S Reast wedi cael cyfarfod gyda swyddogion Powys, mae'r cytundeb bron yn barod a disgwylwyd 'Right of Entry' yn fuan i alluogi gwaith paratoi fel clirio coed a plannu shety'n. Mae Powys angen golwg ar tystysgrifau gweithwyr torri coed. Mae S Reast wedi ysgrifennu at Alister i rhoi wybod iddo fo na fydd y defaid yn cael pori yna rwan.
3. Cynnig ail agor y gorsaf rheilffordd yn Llanbrynmair - Cyflwywyd taflen gan Patrick Adams ynglyn a cynlluniau gwasanaeth bus newydd rhwng Machynlleth a Llandrindod.
4. Cyflysterau cyhoeddus - Mae Becky Rowlands wedi newid y goleuadau yn toiledau'r merched i rhai sydd yn defnyddio llai o pŵer ac hefyd sydd gan 'motion sensors' yn rhan ohonynt. Mae Mark Shelley yn mynd i edrych ar llif y dwr yn toiledau'r dynion. Credwyd fod y problemau gyda'r biliau trydan wedi eu ddatrus a bod y tariff presennol yn well. Mae yna broblem gyda sbwriel tu ol yr adeilad.
5. Hysbysfyrdd - Mae'r hysbysfwrdd yn Bont wedi cael ei adnewyddu a'i osod yn ol yn ei le.
6. Offer diffibrilwyr yn ardal Llanbrynmair - Mae dau diffibrilwr wedi cael ei brynu, fydd un yn cael ei osod yn Tafolwern. S Reast i holi pwy sydd yn gyfrifol am y bocs ffon.
7. Ystyried offer newydd yn y Cae Chwarae - Mae'r 'cradle swings' newydd wedi cyrraedd ac yn barod i'w osod. Mae cost y ffram ddringo wedi cynnyddu felly fydd rhaid ail ystyried opsiynnau i'w ariannu. S Reast i cwrdd a cynricholydd o Gronfa Cymunedol y Loteri
8. Cynllyn hyfforddi – Mae F Cauley yn mynd i wneud hyfforddiant 'Code of Conduct' a R Ashton yn gwneud hyfforddiant Cadeirio
9. Gwrych pob ochr i Tyrpeg yn Nhalerddig – S Reast wedi cael trafodaeth gyda'r Trunk Road Agency ynglyn a rheolaeth traffic i gwenud y gwaith ond nid ydynt am gosod ail

set o oleuadau tra fod yna set islaw Dolgoch yn barod. S Reast i ysgrifennu at perchnogion newydd Tyrpeg i egluro'r sefyllfa

10. Gwifren BT ar lawr wrth croesfan Bont – Cynnigwyd gofyn am gyngor gan Tegrid Jones
11. Shetyn wrth Pont Bel – Cyflwynwyd ymateb gan Network Rail yn dweud nad ydynt am tocio'r coed ar ei tir nhw ar hyn o bryd. S Reast wedi ysgrifennu atynt i ofyn am manylion y ffiniau
12. Troi ffordd Pandy yn Bont yn 'un ffordd yn unig' – 2 arwydd 'Araf/Slow' wedi cyrraedd a'u rhoi i F Cauley i ystyried sut i'w osod
13. Golau yn Llan – Derbynwyd cadarnhad gan Powys y fydd y goleuadau yn cael eu wneud o fewn y ddwy flynedd nesaf
14. Carthion yn yr afonydd – Cafwyd cyfarfod defnyddiol ar y 21ain o Awst
15. "Concealed entrance", Maes yr Efail – Trafodwyd ysgrifennu at Powys ond nid oedd G Mitchell yn credo y fyddent yn ystyried y mater o gwbl. Cynnigwyd edrych ar y posibilrwydd o osod drych cyferbyn a'r mynediad.
16. Tender i torri gwair yn y cae chwarae – Cafodd S Reast amcangyfrif gan Barry Jones am rhisgl coed o £60 am llond fan.
17. Station House, Talerddig – Roedd yna cyfarfod gyda Gwasanaethau Plant ar y safle ar y 1af o Awst. G Mitchell i rhannu gwybodaeth am yr un nesaf pan fydd hyny wedi cael ei drefnu
18. Torri gwair rhwng Wynnstay a'r ffarm – Mae Cyngor Sir Powys wedi ysgrifennu at S Reast yn dweud nad ydy'r tir yn rhan o'i cyffoldebau nhw. E Davies i ymweld a perchenog ffarm Wynnstay
19. Biniau ar gwaelod ffordd Bryneinty – Cynnigwyd gofyn i Powys os gall un o'r lorïau bach fynd i fyny'r ffordd fach yn hytrach na gorfodi'r trigolion i gyd i ddod a'r sbwriel i'r gwaelod
20. 'Weedkiller' o gwmpas pyst arwyddion – S Reast wedi ysgrifennu at Powys i ofyn am manylion ei polisi ynglyn a rheoli chwyn
21. Adroddiad ROSPA – Mae arolwg diogelwch i'r cae chwarae wedi ei gwneud, does yna ddim byd o bryder
22. Lloches Bws Dolfach – Nid yw Traws Cambria wedi llwyddo i cael cytundeb gyda perchnogion yr hen garej felly fyddent yn gwenud ymholiadau gyda perchnogion y Feinol i ofyn os gall y lloches mynd o flaen ei tir nhw
23. Arwyneb y ffordd wrth Pont Brics – S Reast i ysgrifennu at Trunk Road Agency
24. System taliadau yn y maes parcïon – Cyтынwyd i gadael pethau fel y mae nhw
25. Strimio o gwmpas y bainc ar waelod ffordd Brynaire – Wedi ei wneud gan Josh Reast
26. Torri gwair o gwmpas yr ysgol a'r canolfan cymdeithasol – Derbynwyd cwyn am a gwair oedd wedi ei thorri yn pydru ac yn drewi. S Reast wedi trafod gyda Pennaeth yr ysgol ac Ysgrifenydd Pwyllgor y Neuadd. Does yna ddim cynllyn i newid trefniadau ar hyn o bryd.
27. Gerddi fler yn Rhif 2 a 13, Glanclegyr - S Reast wedi ysgrifennu at yr adran tai ym Mhowys. Mae'r Swyddogion perthnasol yn edrych i mewn i'r mater

Materion ffyrdd

- Llinellau gwyn wrth Yr Efail a Bryncoch – G Mitchell i pwysu ar Powys i wneud y llinellau
- Cerrig gwyn wrth ymyl Ffordd Pandy – G Mitchell wedi ymweld ac yn dweud nad ydy'r cerrig yna bellach
- Cyflymder traffig heibio'r ysgol – Disgwylwyd i'r rheloau newydd 20myh gwneud wahaniaeth
- Cyflymder traffig ar y briffordd i mewn i'r pentref – Cyflwywyd llythyr gan Lee Waters AS a Russell George AS, yn anffodus nid oes siawns y fydd unrhywbeth yn newid ar hyn o bryd
- Grid gwartheg Cwm Nant yr Eira – S Reast wedi adrodd i Powys
- Grid gwartheg Belan, Talerddig – S Reast wedi adrodd i Powys
- Goleuadau wrth Dolgoch – Disgwylwyd i rhain fynd yn fuan

Adroddiad ar lafar gan Cyng Gary Mitchell (Cyngor Sir Powys)

Gohebiaeth

Cynllunio

- 23/0943/FUL Proposed tourism development consisting of 5 glamping domes, general camping area, siting of a caravan, 3no. WC /Showering huts, along with access road improvements, infrastructure, recycling/waste point and all associated works, Star Inn Dylife Llanbrynmair SY19 7BW – Gwrthodwyd gyda rhesymau wedi ei nodi, pryderon ynglyn a draeniau a golwg y pods
- Coed Cwm Tafolog – er wybodaeth yn unig
- 23/1164/FUL | Erection of 3 no. 3 bed dwellings (terraced) including landscaping, vehicular access and all associated works | Land At Cae Bryncoch Llanbrynmair Powys SY19 7DL - Cytunwyd gyda ymholiad ynglyn a tai afforddadwy

Cyfriflen a balans ariannol

Ar gael ar 24/07/2023

Cyfrif Cyfredol	£7,271.55
Cyfrif Cadw	£2,887.14
Cyfanswm	£10,158.69
Sieciau heb eu cyflwyno	£823.64
Balans ar gael	£9,335.05

Ceisiadau a thaliadau ariannol

Dyddiad cytunwyd	Eitem	Cyfanswm	Rhif y cheque	Nodiadau
05/09/23	Cyflog y Clerc (Gorffnaf)	£368.00		Wedi talu
05/09/23	Treth ac NI ar cyflog y Clerc (Gorffnaf)	£92.00		Wedi talu
05/09/23	DRE & Co – Awdit	£90.00		Wedi talu

05/09/23	Office Express	£56.24		Wedi talu
05/09/23	Gwasanaethau Arfon Hughes – Costau cyfieithu Gorffennaf	£140.00		Wedi talu
05/09/23	Cyflog y Clerc (Awst)	£368.00		
05/09/23	Treth a NI ar cyflog y Clerc (Awst)	£92.00		
05/09/23	Josh Reast - Strimio	£15.00		
05/09/23	Aztec Print - Arwyddion	£96.00		
05/09/23	ROSPA – Arolwg diogelwch y cae chwarae	£102.60		
05/09/23	Hafren Dyfrdwy	£551.13 £509.56		
05/09/23	PHS	£101.40		
05/09/23	E.ON Next	£808.60		

Unrhyw fater arall

Eitemau ar gyfer yr agenda nesa

- I Edwards – Gridiau gwartheg a cyflwr ffordd Cwm Nant yr Eira
- F Cauley – Cilfan wrth Llust, Bont
- F Cauley – Hysbysfwrdd Talerddig
- F Cauley – Hysbysfwrdd yn Llan
- E Lewis – Cyrb wrth y caff/siop

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Fercher 4ydd mis Hydref 2023
Cynhelir y cyfarfod canlynol ar Nos Fercher, 1af mis Tachwedd 2023

Sarah Reast
Clerc i Gyngor Cymuned Llanbrynmair